# PWYLLGOR CYNLLUNIO
# 5 MEDI 2018

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, ddydd Mercher 5 Medi 2018.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd David Wisinger (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Marion Bateman, Sean Bibby, Chris Bithell, Derek Butler, David Cox, Adele Davies-Cooke, Ian Dunbar, Carol Ellis, Veronica Gay, Patrick Heesom, Dave Hughes, Kevin Hughes, Christine Jones, Richard Jones, Billy Mullin, Mike Peers, Neville Phillips ac Owen Thomas.

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr: Richard Lloyd.

**HEFYD WRTH LAW:**
Prif Swyddog (Cynllunio a'r Amgylchedd); Rheolwr Gwasanaeth - Strategaeth; Arweinydd Tîm - Cynllunio; Uwch Gynllunwyr; Uwch Gyfreithiwr ac Arweinydd Tîm - Gwasanaethau Pwyllgor.

## 20. DATGAN CYSYLLTIADAU

Ni ddatganwyd cysylltiad.

Dywedodd y Cynghorydd Peers ei fod wedi derbyn llythyr gan Gyfreithiwr yn cynnwys cyhuddiadau ffug yn ei erbyn o ran eitem rhif 6.2 ar y rhaglen – 058212 - Cais Amlinellol – datblygiad preswyl, gan gynnwys mynediad, man agored a holl waith cysylltiol ym Mythynnod Woodside, Bank Lane, Drury. Nid oedd wedi anfon unrhyw lythyrau at aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio ac nid oedd wedi siarad gyda nhw am y cais nac wedi cyflwyno unrhyw sylwadau. Roedd y llythyr yn awgrymu y dylai'r Cynghorydd Peers gael ei ymchwilio a'i wahardd o'r Pwyllgor Cynllunio. Dywedodd ei fod wedi siarad â'r Uwch Gyfreithiwr a ddywedodd y dylai siarad fel Aelod lleol ac nid fel aelod o'r Pwyllgor Cynllunio a byddai'n gwneud hynny, a byddai'n gadael yr ystafell yn dilyn ei anerchiad ac ni fyddai'n pleidleisio.

Mynegodd Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio eu siom fod y Cynghorydd Peers yn wynebu cyhuddiadau o'r fath, gan egluro bod holl aelodau'r Pwyllgor Cynllunio yno yn eu dyletswydd ar ran trigolion lleol.

## 21. SYLWADAU HWYR

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r Aelodau ddarllen y sylwadau hwyr a rannwyd yn ystod y cyfarfod ac a oedd wedi eu hychwanegu i'r rhaglen ar wefan Cyngor Sir y Fflint:

http://committeemeetings.flintshire.gov.uk/documents/s50660/Late%20Observations.pdf?LLL=0

## 22. COFNODION

Cafodd cofnodion drafft y cyfarfod ar 18 Gorffennaf 2018 eu cyflwyno a'u cadarnhau fel cofnod cywir.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod gwir a chywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

## 23. EITEMAU I'W GOHIRIO

Nododd y Prif Swyddog (Cynllunio a'r Amgylchedd) na argymhellodd y swyddogion i unrhyw rai o'r eitemau ar y rhaglen gael eu gohirio. Cynigiodd y Cynghorydd Owen Thomas i ohirio eitem rhif 6.5 ar y rhaglen - Cais Llawn – Adnewyddu a newid defnydd safle hen siop i greu tŷ gwyliau ar osod un ystafell wely ac ardal gardd yn Swyddfa'r Post, Ffordd y Llan, Cilcain. Ei reswm dros y cynnig oedd er mwyn gallu cynnal ymweliad safle. Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd i ganiatáu ystyried y cynnig i ohirio i alluogi aelodau'r cyhoedd oedd yn bresennol ar gyfer yr eitem honno i adael y Siambr, os byddai'r eitem yn cael ei gohirio.

Yn dilyn pleidlais, cafodd eitem rhif 6.5 ar y rhaglen - 058434 - Cais Llawn – adnewyddu a newid defnydd safle hen siop i greu tŷ gwyliau ar osod un ystafell wely ac ardal gardd yn Swyddfa'r Post, Ffordd y Llan, Cilcain ei gohirio er mwyn cynnal ymweliad safle.

## 24. ADRODDIADAU'R PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO A'R AMGYLCHEDD)

**PENDERFYNWYD:**

Cofnodi penderfyniadau fel y dangosir ar y rhestr o Geisiadau Cynllunio sydd ynghlwm fel atodiad.

## 25. AELODAU'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL

Ar ddechrau'r cyfarfod roedd 20 aelod o'r cyhoedd ac un aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 1.00pm a daeth i ben am 3.53pm)

…………………………
**Y Cadeirydd**

Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio eu gweddarlledu a gellir eu gwylio drwy ymweld â'r llyfrgell gweddarlledu: http://flintshire.public-i.tv/core/portal/home

**PWYLLGOR CYNLLUNIO AR 5 MEDI 2018**

| EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE / CAIS | SIARADWYR TRYDYDD PARTI/ CAM GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| 058164 | Cyngor Cymuned Pen-y-ffordd | Cais Amlinellol – Datblygiad Preswyl ar dir i'r Dwyrain o Vounog Hill, Penyffordd. | Siaradodd Mr F Brereton, yr asiant o blaid y cais.<br><br>Siaradodd y Cynghorydd Cindy Hinds, fel Aelod lleol, yn erbyn y cais. | Bod caniatâd cynllunio yn cael ei wrthod ar sail y rhesymau yn adroddiad y swyddog. |
| 058212 | Cyngor Tref Bwcle | Cais amlinellol – datblygiad preswyl, gan gynnwys mynediad, man agored a holl waith cysylltiol ym Mythynnod Woodside, Bank Lane, Drury | Siaradodd y Cynghorydd Dennis Hutchinson, fel Aelod lleol, yn erbyn y cais.<br><br>Siaradodd y Cynghorydd Mike Peers, fel Aelod lleol, yn erbyn y cais. | Bod caniatâd cynllunio yn cael ei wrthod, yn erbyn argymhelliad swyddog, ar y sail canlynol:<br>• Mynediad annigonol fyddai'n cael effaith difrifol ar ddiogelwch priffordd ac amwynder yn gwrthdaro gyda Pholisi FUDP AC13; a<br>• Roedd y cynlluniau mynegol yn dangos y tebygolrwydd o ddefnydd aneffeithiol o dir oedd yn groes i nod FUDP HSG8. |
| 058299 | Cyngor Tref Treffynnon<br><br>Cyngor Cymuned Brynffordd | Cais Llawn – Adeiladu stablau ac ardal menage a newid defnydd tir i dir pori ar gyfer ceffylau yn Pen y Ball Hill, Treffynnon. | Siaradodd Mr H Evans, yr asiant o blaid y cais.<br><br>Siaradodd y Cynghorydd Paul Johnson, fel Aelod lleol, yn erbyn y cais. | Bod caniatâd cynllunio yn cael ei wrthod, yn erbyn argymhelliad swyddog, ar y sail canlynol:<br>• Gwrthdaro gyda meini prawf ac FUDP SR2; a |

| EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE / CAIS | SIARADWYR TRYDYDD PARTI/ CAM GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| | | | | • Byddai natur y cynnig yn rhoi bod i ddefnyddio bocsys ceffylau ar briffordd serth a fyddai'n cael effaith andwyol ar ddiogelwch y defnyddwyr priffordd yn gwrthdaro gyda FUDP AC13. |
| 057388 | Cyngor Cymuned Pen-y-ffordd | Cais Amlinellol – Codi hyd at 36 uned o dai ymddeol i bobl dros 55 oed, man agored ac isadeiledd cysylltiedig gyda manylion mynediad i'r safle yn Rhos Road, Penyffordd. | Mr A Wright ar ran y Cyngor Cymuned yn siarad yn erbyn y cais.<br><br>Siaradodd y Cynghorydd Cindy Hinds, fel Aelod lleol, yn erbyn y cais. | Bod caniatâd cynllunio yn cael ei wrthod ar sail y rhesymau yn adroddiad y swyddog. |
| 058434 | Cyngor Cymuned Cilcain | Cais Llawn – Adnewyddu a newid defnydd safle hen siop i greu tŷ gwyliau ar osod un ystafell wely ac ardal gardd yn Swyddfa'r Post, Ffordd y Llan, Cilcain. | | **Gohirio.** Cynnig gan y Cynghorydd Owen Thomas, a phleidleiswyd er mwyn gallu cynnal ymweliad safle. |
| 055430 | | Materion cyffredinol - cais amlinellol gyda'r holl faterion wedi'u cadw'n ôl ar gyfer datblygiad preswyl yn cynnwys 14 uned gyda chymysgedd o dai pâr 2 lawr a thai ar wahân 3 llawr yn yr Hen Spectrum Home & Garden Centre, | | Bod y penderfyniad gan Weinidogion Cymru i wrthod, am y rhesymau a nodwyd yn yr adroddiad yn cael ei nodi. |

| EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE / CAIS | SIARADWYR TRYDYDD PARTI/ CAM GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| | | Ffordd Wrecsam, Cefn-y-Bedd. | | |
| **APELIAD AU** | | | **NODWYD** | |
| 057257 | Apêl gan Mr T Johnston yn erbyn penderfyniad Cyngor Sir y Fflint i wrthod caniatâd cynllunio i godi 1 annedd yn Centre Point Garage, Chester Road, Oakenholt - **GWRTHODWYD**. | | | |
| 057788 | Apêl gan Euro Garages Ltd yn erbyn y diffyg penderfyniad gan Gyngor Sir y Fflint i ddymchwel gorsaf betrol a siop gyfleus bresennol ac ailddatblygu'r safle ar gyfer gorsaf betrol | | | |

| EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE / CAIS | SIARADWYR TRYDYDD PARTI/ CAM GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| | newydd, siop gyfleus a becws gyrru heibio (Defnydd Dosbarth A1) yng Ngorsaf Esso, Church Street, Cei Connah - **GWRTHODWYD.** | | | |
| 057681 | Apêl gan Mr J Woodcock ar ôl i Gyngor Sir y Fflint wrthod caniatâd cynllunio i ddefnyddio tir fel safle carafanau teithiol yn Fferm Stamford Way, Ewloe - **CANIATAWYD**. | | | |